MORGAN, WILLIAM (1801 - 1872), gweinidog gyda'r Bedyddwyr



**Enw:** William Morgan
**Dyddiad geni:** 1801
**Dyddiad marw:** 1872
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** William Joseph Rhys

yng Nghaergybi; ganwyd ddechrau 1801 ger Trefdraeth, Sir Benfro. Ymaelododd gyda'r Annibynwyr. Oddeutu 1818, ac ef yng ngwasanaeth W. Griffiths, gweinidog Tabor, Dinas Cross, ymunodd â'r Bedyddwyr a dechrau pregethu yno. Aeth i ddysgu crydda i ardal Blaenywaun, a phan ddarganfu'r eglwys honno ei athrylith cadwodd ef am flwyddyn yn ysgol William Owen yn Aberteifi. Treuliodd ddwy flynedd yn athrofa'r Fenni. Galwyd ef i Gaergybi ddiwedd 1824, a'i ordeinio 18 Ebrill 1825, y Bedyddiwr cyntaf i'w urddo ym Môn; ei hafal ni fu yno ac eithrio Christmas Evans. Yr oedd, ebe Robert Jones, Llanllyfni, cyn alluoced â John Elias, ond nid oedd mor glir ag ef. Bu'n dadlau â gw r galluog yn *Y Bedyddiwr*. Cyfansoddodd farwnad a *Cofiant* i Robert Williams, Rhuthyn. Cyhoeddodd *Cofiant a Gweithiau Christmas Evans* gan roi'r elw i'w weddw. Eithr *Cysondeb y Ffydd* (672 o dudalennau) ydoedd ei gampwaith. Bu farw o'r parlys, 15 Medi 1872.

## Awdur

**Y Parchedig William Joseph Rhys**, (1880 - 1967)

## Ffynonellau


W. Price, *Cofiant y diweddar Barch. W. Morgan, D. D., Caergybi* (Llanerchymedd 1888)

T. Richards, *Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru*, 1937


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734680


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu